**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:**

Ar ôl pob cyfnod adolygu, caiff Asesiad Effaith Cryno ei lunio, ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Mae hwn yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Effaith ar Lesiant
- Asesiad o'r Effaith ar yr Economi
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (os yw'n gymwys ac os nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin â hyn yn llawn)
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gellir dod o hyd i'r holl Asesiadau Effaith Cryno ac Asesiadau Effaith unigol ad-hoc ychwanegol ar https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws.
Bydd yr Asesiad Effaith Cryno sy'n ymdrin â'r Rheoliadau hyn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y cyfnod adolygu hwn ar 24 Mehefin.